# Les Tŷ Hywel

21 Mawrth 2013

**Cais am Wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 22 Chwefror, pan wnaethoch ofyn,

1. *Am ba hyd eto y mae les Tŷ Hywel yn para?*
2. *Beth yw cost flynyddol y les hon?*
3. *Os yw'r les yn para y tu hwnt i 2018, pwy gytunodd i'w hymestyn?*
4. *Am ba gostau eraill, ar wahân i'r les, y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol?*
5. *Pwy yw perchennog presennol Tŷ Hywel?*
6. *Beth yw'r cyfanswm a wariwyd, ers 1993, ar y les ac ar wella a chynnal a chadw Tŷ Hywel?*

Atebaf y cwestiynau ar wahân.

### *1. Am ba hyd eto y mae les Tŷ Hywel yn para?*

Mae'r les bresennol ar gyfer Tŷ Hywel yn para am gyfnod o 25 mlynedd, o 2007 i 2032.

### *2. Beth yw cost flynyddol y les hon?*

Cost flynyddol bresennol y les yw £2,300,000 ynghyd â TAW.

### *3. Os yw'r les yn para y tu hwnt i 2018, pwy gytunodd i'w hymestyn?*

Aildrafodwyd telerau'r les gan Gomisiwn y Cynulliad (corff corfforaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru) yn 2007. Ym mis Mai 2007, daeth Deddf Llywodraeth Cymru 2006 i rym; gwahanwyd y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru yn gyfreithiol a chafodd y Cynulliad Cenedlaethol bwerau i ddeddfu ar gyfer Cymu mewn meysydd penodol.
Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 89 8635
E-bost/Email:Buddug.Saer@wales.gov.uk

4. ***Am ba gostau eraill, ar wahân i'r les, y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol?***

Nid yw Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am unrhyw gostau'n ymwneud â Thŷ Hywel gan mai Comisiwn y Cynulliad yw'r lesddeiliad. Comisiwn y Cynulliad sy'n gyfrifol am y les ac am y gost o redeg Tŷ Hywel.

5. ***Pwy yw perchennog presennol Tŷ Hywel?***

Crick Properties yw perchennog presennol Tŷ Hywel.

6. ***Beth yw'r cyfanswm a wariwyd, ers 1993, ar y les ac ar wella a chynnal a chadw Tŷ Hywel?***

£40,654,093

Nid oes gennym unrhyw wybodaeth yn ymwneud â'r costau hyn cyn 1999 pan sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan ar http://www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled o'r cod.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad isod:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth / Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**